

## Polisi Cyfnod Prawf

<b>Rhif y Polisi:</b>	P1415-1387		
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Martyn Lewis		
<b>Dyddiad Cyhoeddi:</b>	Mis Mawrth 2015	<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Gorffennaf 2024
Deddfwriaeth berthnasol neu arweiniad allanol perthnasol (os yw'n gymwys):			
Dogfennau sy'n cael eu disodli (dyfynnwch Rif P neu L):			
<p><b>Datganiad Polisi</b></p> <p>Fel arfer, bydd angen i bob aelod staff newydd gwblhau cyfnod prawf. Bydd y Brifysgol yn gweithredu tair gweithdrefn cyfnod prawf; caiff staff eu dynodi i'r weithdrefn cyfnod prawf sy'n briodol i'w gradd. Bydd pob cyfnod prawf yn cynnwys cam pennu targedau a dau neu dri adolygiad ffurfiol.</p> <p>Nodau/amcanion y Cyfnod Prawf yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar dargedau a fydd yn galluogi'r aelod staff newydd i ddeall gwerthoedd cytunedig y Coleg/Gyfarwyddiaeth a'r Brifysgol a gweithio i'w cyflawni.</li> <li>• Cynorthwyo wrth sefydlu staff newydd, a thrwy hyn, helpu i sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon adrannau a'r Brifysgol.</li> <li>• Galluogi aelodau staff ar brawf i ddangos gallu a chymhwysedd yn eu swyddi, o fewn fframwaith cefnogol.</li> <li>• Nodi a diwallu anghenion hyfforddi a datblygu unigol yr aelod staff ar brawf, gan sicrhau eu bod yn gyson â nodau, amcanion a gwerthoedd y Coleg/Adran a'r Brifysgol.</li> <li>• Sicrhau bod pob aelod staff ar brawf yn derbyn pob cyfle i wireddu ei botensial llawn yn ystod y cyfnod prawf.</li> <li>• Darparu proses i'w dilyn os na fydd yr aelod staff newydd yn perfformio yn unol â'r safonau gofynnol.</li> </ul> <p>Mae'n rhaid i'r proses asesu cyfnod prawf fod yn wrthrychol a heb wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn unol â'r Polisi Cydraddoldeb.</p>			
Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:			
<p><a href="#">Gweithdrefnau Cefnogol/Dogfennau Arweiniad/Codau Ymarfer</a>, gyda Rhifau Polisi a dolenni:  <a href="#">Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Proffesiynol, Gradd 1 i 6</a>  <a href="#">Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Proffesiynol ac Academaidd Perthynol, Gradd 7 i 10</a>  <a href="#">Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Academaidd</a>  <a href="#">Ordinhad ar gyfer Terfynu Penodiadau Cyfnod Prawf.</a></p>			